

## Beirniadaeth Lwyfan ar gyfer Y Goron gan Sian Northey a Casia Wiliam

Derbyniwyd tri ymgais ar ddeg, gydag amrywiaeth eang o ran arddull a genre a hyd. Tywyswyd ni o Gymru'r dyfodol, i stori arswyd, o ymson am iselder i bleidlais Brexit. Er nad yn ofynol roedd y cyfan ohonynt yn ffuglen, neu o leiaf yn cael eu cyflwyno fel ffuglen. Ac er bod yna hefyd gryn amrywiaeth o ran safon roedd hi'n fraint cael darllen bob un ohonynt. Mae'n hawdd diystyru cymaint o gamp ydi hi i gael egin syniad, gweithio ar ddarn o lenyddiaeth ac yna magu digon o blwc i'w roi mewn amlen er mwyn i bobl eraill ei ddarllen. All pawb ddim gwneud hynny. Diolch i chi gyd.

Bydd beirniadaeth lawnach ar bob ymgais ar gael ar lein, a hynny gan y ddwy ohonom yn unigol. Yn y cyfamser dyma sylwadau cryno am bob ymgais.

Nid yw'r canlynol wedi'u gosod mewn unrhyw drefn benodol.

Gan **Llechen Wen** cawn dair stori fer wedi'u gosod mewn tri lleoliad gwahanol. Efallai bod y straeon ychydig yn syml ac arwynebol ond maent i gyd yn syniadau da.

Tri ar ddeg o ymsonau byr gan wahanol bobl sydd yn gwisgo mwgwd oedd gwaith **Rhywun**. Fel sy'n digwydd yn aml gyda chasgliad diffyg cysondeb safon yw'r brif broblem, ond mae'r goreuon yn dda iawn.

Gwaith **Dennis Kenna** yw'r unig un lle mae'n rhaid i ni wir feirniadu safon yr iaith. Trueni gan fod yma wreiddyn stori dditectif dda. Mae ychydig wallau iaith gan **Anweledig** hefyd, ond ddim digon i amharu ar lif y stori; ac yn sicr un o gryfderau Anweledig yw ei gallu i ysgrifennu deialog naturiol.

Mae stori **Penfelen** yn amserol iawn – dyfodol lle mae feirws marwol yn lledaenu ar draws y byd. Mae'r stori'n llyso ac mae'r iaith yn gafael.

Gosodwyd stori **Amaethyddiaeth** yn y byd amaethyddol, byd mae'n amlwg yn gyfarwydd ag o. Byddai'r gwaith wedi elwa petai wedi bod yn fwy cynnil a gadael i'w allu i ddisgrifio'r byd hwnnw wneud mwy o'r gwaith.

Stori Gwyn sydd gan **Anochel** – bachgen ifanc traws a'i wewyr wrth esbonio ei sefyllfa wrth ei rieni. Mae yna ddarnau da ond teimla'r ddwy ohonon nad yw cywair ffurfiol yr iaith, yn enwedig yn y deialog, yn gydnaws â'r stori.

Mae **Brynmair** yn dilyn cyfnod o iechyd meddwl bregus myfyriwr yn Neuadd Pantycelyn. Mae'r iaith yn naturiol iawn, y cymeriad yn gredadwy a'r stori'n cael ei dweud heb fod yn orddramatig.

Cyflwynna **Marian** ni i ddwy ffrind a'r twyll sy'n dinistrio'r berthynas. Mae'r portread o Mali yn ennyn ein cydymdeimlad er ei bod yn ymddwyn yn dwyllodrus, rhywbeth nad yw'n hawdd i'w wneud.

Mae stori **Giacomo** yn stori wahanol – gosodwyd hi yn yr Eidal, rhywbryd yn y gorffennol, a'r arddull efallai yn ymgais i gyd-fynd â hynny. Mae i'w longyfarch am fentro ond yn anffodus nid yw'n taro deuddeg.

Mae hyn yn gadael tri ymgeisydd ar y brig. Bu cryn drafod rhwng y ddwy ohonom pwy ddylid ei roi yn ail a phwy yn drydydd. Nid oherwydd ein bod yn anghydweld ond oherwydd bod gan y ddau ddarn eu cryfderau a'u gwendidau. Ein penderfyniad yw bod y drydedd wobr yn mynd i **Fesul 40 eiliad**. Cafwyd rhai o'r darnau mwyaf trawiadol o ysgrifennu yn y gystadleuaeth yn y gwaith amlgyfrwng hwn. Ei wendid oedd fod y llinyn storiol ar adegau yn mynd yn anodd i'w ddirnad oherwydd y gwahanol leisiau.

Yn ail gosodwn **Barus janswyr fel Boris Johnson**. Cawn ddarlun o stad o dai newydd yng nghyd-destun Brexit a refferendwm dychmygol ar annibyniaeth

i Gymru. Portread o gymdeithas a geir, gyda dychan llwyddianus a defnydd hyderus a bywiog o iaith.

Sydd yn gadael un ar ôl. Pan yn cydfeirniadu mae hi'n rhyddhad pan nad oes yna fymryn o amheuaeth gan y ddau feirniad pwy sydd ar y brig. Mae gwaith **Lina** yn ddarn uchelgeisol sydd yn mynd â ni ymhell i'r dyfodol ac mae'n llenor dawnus efo meistriolaeth dros iaith sydd yn ei alluogi i ddefnyddio arddull ffug academaidd ar gyfer un darn a llythyrau wedi'u hysgrifennu gan blentyn ar gyfer y gweddill. Mae Ati a Jei ei frawd, ac Eryn ei ffrind, yn gymeriadau fydd yn aros yn y cof am hir. Llongyfarchiadau gwresog i Lina, mae'n llwyr haeddu Coron yr Urdd 2020.